

## **Erthygl 15 Atal, Dehongli a Chyhoeddi'r Cyfansoddiad**

### **15.1 Atal y Cyfansoddiad**

- (a) Cyfyngiad ar atal. Ni ellir atal Erthyglau'r Cyfansoddiad hwn. Gall y Rheolau a nodir isod gael eu hatal gan y Cyngor llawn i'r graddau a ganiateir o fewn y rheolau hynny a'r gyfraith;
- (b) Gweithdrefn i atal. Ni chynigir cynnig i atal unrhyw reolau heb rybudd oni bai fod o leiaf hanner cyfanswm y cynghorwyr yn bresennol. Bydd maint a hyd yr ataliad yn gymesur â'r canlyniad sydd i'w sicrhau, gan roi ystyriaeth i ddibenion y Cyfansoddiad a nodir yn Erthygl 1;
- (c) Rheolau y gellir eu hatal. Gellir atal Rheolau Gweithdrefn y Cyngor yn unol ag Erthygl 15.1 i'r graddau a nodir yn Rheol Gweithdrefn y Cyngor 22.

### **15.2 Dehongli**

Ni chaniateir herio rheoliad Cadeirydd y Cyngor ynghylch llunio neu gymhwyso'r Cyfansoddiad hwn neu ynghylch unrhyw rai o drafodion y Cyngor, mewn unrhyw un o gyfarfodydd y Cyngor. Bydd dehongliad o'r fath yn rhoi ystyriaeth i bwrpasau'r Cyfansoddiad hwn, a gynhwysir yn Erthygl 1.

### **15.3 Cyhoeddi**

- (a) Bydd y Prif Weithredwr, yn dilyn cais, yn rhoi copi wedi'i argraffu o'r Cyfansoddiad hwn i aelod etholedig;
- (b) Bydd y Prif Weithredwr yn sicrhau bod y Cyfansoddiad ar gael i'w ddarllen yn swyddfeydd y Cyngor, mewn llyfrgelloedd ac ar wefan y Cyngor.